ARFOR - Llwyddo'n Lleol 2050

Ydych chi'n ystyried dychwelyd i ARFOR?

Mae gan Llwyddo'n Lleol 2050 cyfle ARBENNIG i 4 teulu sy'n ystyried symud yn ôl i ranbarth ARFOR (Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn) i dreulio penwythnos preswyl yn RHAD AC AM DDIM yn y Moody Cow, Llwyncelyn, Aberaeron (www.bargoedfarm.co.uk) i brofi bywyd gwledig a'r cyfleoedd sydd gan ARFOR ei gynnig.

Bydd y penwythnos yn cynnwys sesiynau hamdden, gweithgareddau i'r plant a chyfle i gymryd rhan mewn sgyrsiau ynghylch y broses o ddychwelyd gydag amryw o unigolion a sefydliadau fydd yn darparu gwybodaeth i chi yn ystod y penwythnos.

Bydd y penwythnos yn cael ei gynnal rhwng y 27ain a'r 29ain o Hydref 2023 a fydd y cynnig yn cynnwys dwy noson a phrydau bwyd drwy gydol y penwythnos ar gyfer yr holl deulu am ddim.

CEFNDIR ARFOR

Ceredigion, Gwynedd, Sir Gâr ac Ynys Môn yw'r siroedd gyda'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg ond mae'r nifer wedi bod yn gostwng ers amser maith. Mae cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn nod allweddol i Lywodraeth Cymru drwy'r Cynllun Miliwn o Siaradwyr Cymraeg 2050. Mae Ceredigion, Gwynedd, Sir Gâr ac Ynys Môn hefyd yn siroedd sydd gyda heriau economaidd gan eu bod yn siroedd gwledig gyda chyflogau isel.

Clustnodwyd £11 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfnod 2022/2023 i -2024/25 i ganiatáu'r pedair sir i gydweithio a chreu ymyraethau i sicrhau ffyniant economi Gorllewin Cymru ac i arbrofi a threialu cynlluniau i'r perwyl.

Mae ARFOR felly yn rhaglen ar y cyd gan Gynghorau Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn sy'n edrych i ddefnyddio mentergarwch a datblygu'r economi i gefnogi cadarnleoedd y Gymraeg a, thrwy hynny, cynnal yr iaith.

O dan Raglen ARFOR mae yna nifer o gronfeydd sy'n cynnig grantiau ariannol i fusnesau ac unigolion megis Cronfa Her ARFOR a'r Gronfa Genfnogaeth Cymunedau Mentrus.

Am fwy o wybodaeth am yr uchod a rhaglen ARFOR gweler: www.rhaglenarfor.cymru

CEFNDIR LLWYDDO'N LLEOL 2050

Un o brosiectau Rhaglen ARFOR yw Llwyddo'n Lleol 2050. Gydag allfudo teuluoedd a phobl ifanc yn cael ei gydnabod fel un o'r prif resymau am ddirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y cadarnleoedd, nod Llwyddo'n Lleol 2050 yw darbwyllo pobl ifanc a theuluoedd ifanc sydd mewn peryg o adael neu sydd eisoes wedi ymadael bod

modd cael dyfodol disglair, gyda swydd dda o fewn maes cyffrous, yn eu cymuned gynhenid.

Mae yna bedair elfen i brosiect Llwyddo'n Lleol 2050:

1. Elfen Gyrfaol
2. Elfen Mentro
3. Elfen Ymgartrefu
4. Elfen Profi

CANLLAWIAU:

Pwy sy'n gymwys?

- Unigolion/teuluoedd sydd ag o leiaf **UN** oedolyn 35 mlwydd oed neu'n iau
- Unigolion/teuluoedd sydd ag o leiaf **UN** aelod sy'n dod yn wreiddiol o ardal ARFOR (Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn) ond sydd bellach yn byw y tu hwnt i'r siroedd uchod.
- Unigolion/teuluoedd sydd yn ystyried neu sy'n chwilio am fwy o wybodaeth am ddychwelyd yn ôl i ARFOR i fyw.
- Unigolion/teuluoedd sydd ag o leiaf **UN** aelod sy'n gallu'r Gymraeg neu sydd wedi ymrwymo'n llawn i ddysgu'r iaith.

* Mae yna ychydig o hyblygrwydd ynglŷn â'r gofynion uchod felly os oes gennych ddiddordeb ac yn teimlo nad ydych yn cwrdd â'r holl ofynion uchod mae yna groeso i chi gysylltu â ni i drafod y mater ymhellach drwy e-bostio: llwyddonlleol@rhaglenarfor.cymru

TELERAU'R GEFNOGAETH:

Beth sy'n ofynnol o'r unigolyn/teuluoedd?

- Disgwylir ymrwymiad llawn gan yr unigolyn/teulu i fynychu a chyfrannu i'r holl weithgareddau a fydd wedi ei drefnu ar eich cyfer yn ystod y penwythnos.
- Mae yna ddisgwyliad i chi gyfrannu eich barn a mynychu'r gweithdai a thrafodaethau fydd wedi ei drefnu ar eich cyfer yn ystod y penwythnos.
- Yn ogystal â mynychu'r gweithgareddau/gweithdai bydd yna ofyniad i chi gyfrannu at ymgyrch ddigidol Llwyddo'n Lleol drwy rannu eich profiadau a'ch teimladau ynglŷn â dychwelyd gyda ni ar gamera. Bydd y gwaith cyfweld a ffilmio yn cael ei wneud gan griw Cyfathrebu Llwyddo'n Lleol yn ystod y penwythnos preswyl, er mwyn creu darlun gonest o'r heriau a'r cyfleoedd sydd dan ystyriaeth wrth geisio penderfynu dychwelyd i ranbarth ARFOR ai peidio. Mi fydd y cynnwys yn cael ei rannu ar blatfformau digidol Llwyddo'n Lleol:

- Instagram - @llwyddonlleol
- Facebook - Llwyddo'n Lleol 2050
- LinkedIn - Arfor - Llwyddo'n Lleol
- Twitter - @LleolN

Dyddiadau allweddol:

Dyma'r ffenest ymgeisio gyntaf o dan yr elfen Ymgartrefu ac mi fydd y ffenest yn agored rhwng yr 2il o Hydref a'r 18fed o Hydref. Dylid dychwelyd unrhyw ffurflen gais erbyn 23:59 ar y 15fed o Hydref.

Sut i ymgeisio?

I ymgeisio llenwch y Ffurflen Gais yma.

Am ragor o wybodaeth neu os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â **llwyddonlleol@rhaglenarfor.cymru**

ARFOR - Llwyddo'n Lleol 2050

Are you considering going back to ARFOR?

Llwyddo'n Lleol 2050 has a UNIQUE opportunity for 4 families who are considering going back to the ARFOR region (Carmarthen, Ceredigion, Gwynedd and Anglesey) to spend a FREE residential weekend in the Moody Cow, Llwyncelyn, Aberaeron (www.bargoedfarm.co.uk) to experience country life and the opportunities ARFOR has to offer.

The weekend will include leisure sessions, children's activities, and an opportunity to take part in conversations on the process of returning with various individuals and establishments, who will provide you with information during the weekend.

The weekend will be held between 27th and 29th October 2023 and the offer will include two nights plus meals for free for the weekend for all the family.

ARFOR BACKGROUND

Ceredigion, Gwynedd, Carmarthenshire and Anglesey are the counties with the highest percentage of Welsh speakers but the number has been decreasing for a long time. Increasing the number of Welsh speakers is a key goal for the Welsh Government through the Welsh Language Strategy Plan 2050. Ceredigion, Gwynedd, Carmarthenshire and Anglesey are also counties with economic challenges as they are rural counties with low wages.

£11 million has been earmarked by the Welsh Government for the period 2022/2023 to 2024/2025 to allow the four counties to work together and create interventions to ensure the prosperity of the West Wales economy and to experiment and trial schemes to that end.

ARFOR therefore is a joint venture by Carmarthenshire, Ceredigion, Gwynedd and Anglesey Councils which seeks to use entrepreneurship and economic development to support the heartlands of the Welsh language and, thus, maintain the language.

The ARFOR programme includes a number of funds that offer grants to businesses and individuals, such as the ARFOR Challenge Fund and the Enterprising Communities Support Fund.

For more information on the above and the ARFOR programme go to: www.rhaglenarfor.cymru

LLWYDDO'N LLEOL 2050 BACKGROUND

One of the ARFOR programme projects is Llwyddo'n Lleol 2050. With out-migration of families and young people being recognised as one of the main reasons for a decline

in the number of Welsh speakers, Llwyddo'n Lleol aims to persuade those who are most likely to go, or who have already left, that they can have a bright future and a good job in an exciting field of work within their local communities.

There are four elements to the Llwyddo'n Lleol 2050 project:

1. 'Gyrfaol' initiative
2. 'Mentro' initiative
3. 'Ymgartrefu' initiative
4. 'Profi' initiative

GUIDELINES:

Who is eligible?

- Individuals/families with at least **ONE** adult aged 35 or under
- Individuals/families with at least **ONE** member who comes originally from the ARFOR area (Carmarthenshire, Ceredigion, Gwynedd and Anglesey) but is now living outside the above counties.
- Individuals/families who are considering, or seeking more information on returning to ARFOR to live.
- Individuals/families with at least **ONE** member who is able to speak Welsh or is fully committed to learning the language.

* There is some flexibility with the above requirements so if you're interested and feel that you don't meet all the above requirements, feel free to contact us to discuss the matter further by e-mailing:
llwyddonlleol@rhaglenarfor.cymru

TERMS OF THE SUPPORT:

What is required of the individual/family?

- A full commitment is expected of the individual/family to attend and contribute to all organised activities during the weekend.
- You are expected to contribute your opinion and attend workshops and discussions that have been organised for you during the weekend.
- As well as attending the activities/workshops you will be required to contribute to the Llwyddo'n Lleol digital campaign by sharing your experiences and feelings about returning with us on camera. The interviewing and filming will be done by the Llwyddo'n Lleol communication crew during the residential weekend, to create an honest picture of the challenges and opportunities under consideration when trying to decide whether to return to the ARFOR region or not. The content will be shared on the Llwyddo'n Lleol digital platforms:

- Instagram - @llwyddonlleol
- Facebook - Llwyddo'n Lleol 2050
- LinkedIn - Arfor - Llwyddo'n Lleol
- Twitter - @LleolN

Key dates:

This is the first application window of the 'Ymgartrefu' initiative and the window will be open between 2nd October and 18th October. All application forms should be returned by 23:59 on 15th October.

How to apply

To apply, complete the Application Form here.

For more information or if you have any questions contact
llwyddonlleol@rhaglenarfor.cymru